

## **Cynigion y Cabinet ar gyfer deddfwriaeth sylfaenol, 2003-4**

### **Datganiad yn y Cyfarfod Llawn**

1. Mae Rheol Sefydlog 31.10 yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r Cabinet gyflwyno ei gynigion ar gyfer deddfwriaeth sylfaenol yn San Steffan gerbron y Cyfarfod Llawn cyn 31 Mawrth bob blwyddyn; mae rheolau sefydlog 31.9 a 31.11 yn nodi strwythur y cynnig hwn a'r wybodaeth ategol sydd ei hangen. Mae'r ddogfen hon yn cwrdd â'r gofyniad olaf, ar gyfer bod yn destun dadl yn y Cyfarfod Llawn ar 12 Mawrth.
2. Mae Rheol Sefydlog 31 yn rhagweld y gall cynigion ar gyfer deddfwriaeth sylfaenol gael eu cyflwyno naill ai gan dri (neu fwy) o Aelodau'r Cynulliad neu gan y Cabinet. Ar 22 Ionawr mabwysiadodd y Cynulliad gynnig gan bedwar Aelod ar gyfer Mesur a fyddai'n galluogi'r Cynulliad i wahardd smygu mewn mannau cyhoeddus. Dyma'r tro cyntaf i Aelodau'r Cynulliad ddefnyddio'r weithdrefn hon. Mae cynigion y Cabinet ar gyfer deddfwriaeth sylfaenol a nodir isod yn ychwanegol i'r fenter honno.

### **Y Cynigion**

#### **Education (Miscellaneous Provisions) (Wales) Bill**

Byddai'r Mesur yn galluogi Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) a Chyngor Cenedlaethol ELWa i gymryd camau ar y cyd ac ar ran ei gilydd, i secondio staff i'r naill gorff a'r llall, a darparu bod CCAUC yn gallu ymarfer swyddogaethau cynllunio fel y cam terfynol. Byddai'r olaf yn galluogi CCAUC i greu partneriaethau rhwng cyrff yn unol â'r polisi a sefydloedd Llywodraeth y Cynulliad yn 'Y Wlad sy'n Dysgu' ac 'Ymgeisio yn Uwch'. Byddai'r Mesur yn galluogi'r Cynulliad i ad-drefnu seiliau deddfwriaethau Grant Dysgu'r Cynulliad ac i wneud darpariaeth ar gyfer cyfyngu ar faint dosbarthiadau plant iau (yn debyg i'r cyfyngiadau a geir eisoes ar faint dosbarthiadau'r babanod). Byddai'r Mesur hefyd yn galluogi'r Cynulliad i fynnu bod sefydliadau addysg bellach yn llunio ac yn cyhoeddi datganiadau blynnyddol ar lywodraethu a rheoli; yn datrys anghysonderau technegol statudol sy'n effeithio ar Estyn, a chadarnhau ymhellach ei statws fel un o swyddfeydd y Cynulliad Cenedlaethol.

Byddai goblygiadau ariannol cyfyngedig i'r Cynulliad yn codi o hyn, a'r mwyaf arwyddocaol o'r rhain fyddai'r cyllid i leihau maint dosbarthiadau plant iau (er bod cynlluniau blaenorol wedi gwneud darpariaeth sylfaenol er mwyn cyflawni hyn). Ni ddylai'r darpariaethau ar gyfer CCAUC ac ELWA arwain at unrhyw oblygiadau sylweddol o ran cost.

#### **Public Services Ombudsman (Wales) Bill**

Byddai'r Mesur hwn yn creu awdurdodaeth un Ombwdsmon newydd ar gyfer Cymru, sy'n cyfuno'r tair swydd Ombwdsmon presennol, sef y Comisiynydd Llywodraeth Leol, y Comisiynydd Gwasanaeth Iechyd ac Ombwdsmon

Gweinyddiaeth Cymru. Byddai hyn yn galluogi deiliad y swydd i ymchwilio i gwynion o gamweinyddu yn erbyn unrhyw un o'r ystod eang o gyrrf cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys y Cynulliad, Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad, cyrff y gwasanaeth iechyd a'r awdurdodau lleol. Yn ddibynnol ar ymgynghori ymhellach, byddai awdurdodaeth yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus newydd yn cwmpasu pwerau'r Ombwdsdyn presennol o ran ymchwilio a llunio adroddiadau.

Y Cynulliad sydd yn ariannu'r tri Ombwdsmon presennol naill ai'n uniongyrchol neu drwy'r Setliad Cyllid Llywodraeth Leol. Ni ddylai creu awdurdodaeth un Ombwdsmon gael unrhyw effaith ariannol ar y Cynulliad (er y byddai angen aildrefnu'r llinellau cyllid).

### **Tourism Accommodation (Registration) (Wales) Bill**

Trwy ddiwygio neu ddiddymu adran 17 o Ddeddf Datblygu Twristiaeth 1969 neu ran o'r adran honno, byddai'r Mesur yn creu pwer galluogi newydd i'r Cynulliad Cenedlaethol sefydlu cynllun cofrestru llety i dwristiaid yng Nghymru. Byddai hefyd yn cynnwys y pwer i wneud is-ddeddfwriaeth sy'n nodi ar ba sail y dylid cofrestru llety. Byddai'r llety a gofrestrir dan y Cynllun yn cael ei archwilio bob hyn a hyn. Byddai'r trefniadau cofrestru ac archwilio yn cael eu cynllunio i sicrhau y bodlonir y safonau gofynnol wrth ddarparu llety i dwristiaid.

Bydd cyd-weithgor Llywodraeth y Cynulliad/Bwrdd Croeso Cymru, gyda chymorth Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, yn ystyried nifer o faterion sy'n ymdrin â sut y bydd y Cynllun yn gweithredu. Mae'r materion hyn yn cynnwys rôl yr awdurdodau lleol a Bwrdd Croeso Cymru, yn ogystal â chostau. Y bwriad yw y bydd y cynllun yn ariannu ei hun, ond efallai y bydd costau cychwyn; bydd y gweithgor yn profi ac yn adolygu'r rhain.

### **Transport (Wales) Bill**

Byddai'r Mesur yn galluogi Llywodraeth y Cynulliad i sicrhau y rhoddir ei bolisiâu trafnidiaeth ar waith mewn modd mwy effeithiol. Ar hyn o bryd mae gennym gyfrifoldeb uniongyrchol dros gefnffyrrd yn unig a phwerau i ariannu datblygiadau'r awdurdodau lleol a'r sector preifat, ochr yn ochr â chyfrifoldebau dros rai swyddogaethau bysiau, diogelwch ar y ffyrdd a materion eraill. Byddai'r Mesur yn galluogi Llywodraeth y Cynulliad i roi datblygiadau ar waith yn ogystal â'u hariannu, gan weithio mewn partneriaeth â llywodraeth leol ac yn unol â'r blaenoriaethau a nodir yn Fframwaith Trafnidiaeth Llywodraeth y Cynulliad a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2001. Byddai'r pwerau y gwneir cais amdanynt yn galluogi Llywodraeth y Cynulliad i ddatblygu a gweithredu polisiâu ar gyfer hyrwyddo ac annog gwasanaethau trafnidiaeth diogel, effeithlon ac economaidd. Mae pwerau cyffelyb ar gael i Faer Llundain dan y Greater London Act 1999, lle y mae'r Maer yn paratoi strategaeth trafnidiaeth ac yn ei gwneud hi'n ofynnol i Gynghorau Bwrdeistref Llundain a'r Cyngor Cyffredinol baratoi cynlluniau gweithredu lleol i'r Maer eu cymeradwyo, ac iddynt hwy eu rhoi ar waith. Byddai'r pwerau eraill a geisir yn galluogi Llywodraeth y Cynulliad i sefydlu cyd-awdurdodau sydd ar yr un

trywydd ag Awdurdodau Trafnidiaeth Teithwyr/ Gweithrediaethau Trafnidiaeth Teithwyr (ATT/GTT). Sefydlwyd y rhain yn wreiddiol dan Ddeddf Drafnidiaeth 1968 a newidiwyd eu rôl dan ddeddfwriaeth ddilynol, ond diddymwyd y pwerau ar gyfer sefydlu rhai newydd. Yn olaf, rydym am geisio pwerau tebyg i'r rhai sydd ar gael i Weithrediaeth yr Alban o dan Ddeddf Trafnidiaeth 2000, i alluogi Llywodraeth y Cynulliad i gael pwerau i gyfarwyddo'r Awdurdod Rheilffyrdd Strategol (SRA) mewn cysylltiad â masnachfraint Cymru a'r Gororau; ac i alluogi Llywodraeth y Cynulliad i benodi aelod o'r SRA.

Byddai pwerau tebyg i rai Maer Llundain yn arwain at rai mân oblygiadau o ran cost i'r awdurdodau lleol. Os penderfynir bwrw ymlaen i sefydlu Awdurdod/Gweithrediaeth Trafnidiaeth Teithwyr neu gorff tebyg, yna byddem yn cwrdd â'r rhan fwyaf o'r costau trwy drosglwyddo'r staff presennol. Ond byddai angen tîm pencadlys ac ychydig newidiadau eraill hefyd er mwyn creu corff effeithiol. Byddai hyn yn costio hyd at £1 miliwn y flwyddyn (gan gynnwys costau cyffredinol). Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol i'r Cynulliad yn codi o'r cynigion sy'n ymwneud â'r SRA.